**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10AM AR 18 IONAWR 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mr Michael Imperato; Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon).

**Amser Dechrau: 10:06**
**Amser Gorffen: 10:27**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Comisiwn na fu cyfarfod gyda Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LlC) oherwydd cyfnod y Nadolig.

2.2. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y gweithdy Amrywiaeth a Democratiaeth a gynhaliwyd ddoe. Cynhaliwyd y gweithdy ar-lein ac fe'i harweiniwyd gan y Prif Weithredwr. Roedd nifer dda'n bresennol a sawl aelod etholedig yn eu plith, gan gynnwys Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r Ombwdsmon newydd ar gyfer Cymru, sef Michelle Morris. Archwiliodd y gweithdy rwystrau sy'n wynebu unigolion sy'n sefyll am etholiad a sut gall Cyrff Cyhoeddus wneud rolau'n fwy hygyrch a chynhwysol. Amlygodd y Prif Weithredwr fod yr adran ar gydnabyddiaeth ariannol yn berthnasol i'r Comisiwn yng ngoleuni gwaith posibl Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW). Bydd y Gweinidog yn cynnal sesiwn galw heibio ar gyfer aelodau'r Senedd yr wythnos nesaf ar ganlyniadau'r arolwg. Bydd y Gweinidog a'r tîm llywodraeth leol yn dwyn yr holl adborth ynghyd o'r 3 sesiwn a'i rannu gyda'r mynychwyr. **Cytunwyd** y bydd y Prif Weithredwr yn rhannu'r adborth gyda'r Comisiynwyr, pan ddaw i law oddi wrth y Gweinidog.

2.3. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i anfon adborth ar y 3 sesiwn Amrywiaeth a Democratiaeth at y Comisiynwyr, pan ddaw i law oddi wrth y Gweinidog.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 3) –** Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Comisiwn fod y cyfarfod cyswllt â LlC wedi cael ei ohirio tan ddiwedd mis Ionawr. Bydd diweddariad yn cael ei roi yng nghyfarfod mis Chwefror.

**4.3.** **(Mater 4)** – Disgwylir i'r porth gael ei gwblhau ar 6 Ebrill, a bydd cam profi'n dechrau'n fuan wedi hynny. Ni fydd y porth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Arolygon Cymunedol. Pan fydd y porth wedi cael ei gwblhau'n derfynol, bydd sesiwn ddefnyddwyr yn cael ei threfnu ar gyfer y Comisiynwyr.

**4.4.** **(Mater 9)** – Mae'r swydd wag ar gyfer y 5$^{ed}$ Comisiynydd yn fyw bellach ar wefan LlC a safleoedd recriwtio allanol a bydd yn cau ar 27 Ionawr. Mae'r Comisiwn wedi cael rhywfaint o ddiddordeb yn y rôl. Bydd y Prif Weithredwr yn gwirio nifer y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yma gyda Leighton yn yr Uned Cyrff Cyhoeddus.

**4.5.** **Gweithredu:** Pan fydd y porth wedi cael ei gwblhau'n derfynol, bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni'n trefnu sesiwn i'r Comisiynwyr ar ddefnyddio'r porth.

**4.6.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i gysylltu â Leighton yn yr Uned Cyrff Cyhoeddus i wirio nifer y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yma ar gyfer swydd wag y 5$^{ed}$ Comisiynydd.

## 5. Adroddiad ar Gyllideb 2022-23

**5.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** a **chymeradwywyd** y gyllideb hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2022.

**5.2.** **Nododd** a **chymeradwyodd** yr aelodau'r newidiadau i gategorïau'r gyllideb i fynd i'r afael â rhywfaint o orwariant amcangyfrifedig. **Nodwyd** mai'r ddau faes â'r gorwariant amcangyfrifedig mwyaf oedd Meddalwedd oherwydd bod y Comisiwn wedi prynu trwyddedau defnyddwyr Microsoft a chronfa ddata

ychwanegol ar gyfer staff newydd, a Chyfreithiol oherwydd bod y Comisiwn wedi cael cyngor cyfreithiol ar Arolygon Cymunedol.

**5.3.** **Nodwyd** bod £39,312 o danwariant ar ddiwedd mis Rhagfyr, ac y byddai gan y Comisiwn danwariant amcangyfrifedig o £62,000 ar ddiwedd y flwyddyn, yr oedd tua £15,000 ohono mewn perthynas â chronfeydd CFfDLC a'r gweddill mewn perthynas â chronfeydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG). **Nodwyd** y byddai tanwariant CFfDLC yn cael ei ddefnyddio i dalu am rywfaint o draul y prosiect ymchwil, os oedd modd.

## 6. Rheoli Risg

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Ionawr 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**6.2.** **Nodwyd** na fu unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ers y cyfarfod diwethaf.

**6.3.** **Nodwyd** y bydd parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei ystyried yn ystod y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ar ôl y cyfarfod.

## 7. Calendr Digwyddiadau

**7.1.** **Nododd** y Comisiwn y Calendr.

**7.2.** **Cytunwyd** y byddai'n fuddiol trefnu dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2023 gyfan. **Cytunodd** y Prif Weithredwr i anfon dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol at y Comisiynwyr.

**7.3.** **Cytunodd** y Comisiwn i gynnal cyfarfodydd os bydd angen yn unig ac y gall y Comisiwn gyfarfod i wneud penderfyniadau am yr Arolwg Cymunedol heb gyfarfod llawn, os bydd angen.

**7.4.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i anfon dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol at y Comisiynwyr.

## 8. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**8.1.** Amlygodd Frank Cuthbert fod Archwiliad TGCh y Comisiwn wedi cael canlyniad da a diolchodd i'r Comisiwn am ei waith.

**8.2.** **Nodwyd** y bydd aelodau'r Comisiwn yn mynychu Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd ar ôl y cyfarfod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 22 Chwefror 2023**